“Mewn ardderchogrwydd purdeb gwiw”

Yr Efengylau



Cymun Bendigaid ar Gân

**Ail Sul y Nadolig**

1 Ionawr 2023 am 9.15am

Cadeirlan Deiniol Sant *ym Mangor*

Saint Deiniol’s Cathedral *in Bangor*

# *Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.*



Rydych chi'n sefyll rwan lle safodd Deiniol bron i fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn 525, bu iddo gynnull o'i gwmpas gymuned lawn ffydd, gobaith a chariad, gan godi o'i chwmpas ffens gyll—y **bangor** gwreiddiol—iddi'n gysgod ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch chwithau, hefyd, eich cofleidio yma gan yr un ffydd, gobaith a chariad a gyhoeddir gennym heddiw ac sy'n ein cyfareddu o hyd.

# *Yn Cymun hwn...*

**Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i Waed ef gyda ni.**

1 Wrth inni ymgynnull, byddwn yn paratoi ein hunain i gwrdd â Christ trwy gyffesu ein pechodau – y ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw yn ein bywydau – ac yn derbyn gollyngdod, sef sicrwydd o faddeuant Duw.

2 Yna rydyn ni'n gwrando ar ddarlleniadau o'r Beibl, gan ganfod yno arweiniad, her, cysur a newydd da gan Dduw. Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i Dduw ein gweddi dros bawb mewn angen.

3 Yn galon i'n haddoliad heddiw, byddwn yn cymryd bara a gwin, byddwn yn gofyn am fendith gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r bara, ac – fel aelodau o Gorff toredig, trwsiedig Crist – byddwn yn Cymuno.

4 Daw ein haddoliad i ben wrth inni dderbyn bendith Duw, yn gynhaliaeth inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf, neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaith a chariad yma i bawb.

## Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrio yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

## Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

## Plant a theuluoedd ifanc

Activities and crafts take place during the Choral Holy Eucharist every Sunday in the Lady Chapel, for any children up to the age of 11. The crafts and activities are varied, with at least one relating to the theme of the Eucharist itself. This space will be staffed by responsible adults, and children over the age of 5 will be able to come and go freely. Children will remain the responsibility of their parents or guardians at all times. Children who are aged 4 and under should, in the first instance, be accompanied by a parent or guardian unless a prior arrangement with those on duty on the day has been made.

## O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

**Buchedd Bangor** yw ein cylchgrawn rheolaidd, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.

**Buchedd Bangor**

**O'r Ddarllenfa**
**From the Lectern**

# Trefn y gwasanaeth

Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch

## Cynnull

### Emyn



**Ar gyfer heddiw'r bore'n faban bach, faban bach,**
**y ganwyd gwreiddyn Iesse'n faban bach;**
**y Cadarn ddaeth o Bosra,**
**y Deddfwr gynt ar Seina,**
**yr Iawn gaed ar Galfaria'n faban bach, faban bach,**
**Yn sugno bron Maria'n faban bach.**

**Caed bywiol ddŵfr Eseciel ar lin Mair, ar lin Mair,**
**a gwir Feseia Daniel ar lin Mair;**
**Caed bachgen doeth Eseia,**
**'r addewid roed i Adda,**
**yr Alffa a'r Omega ar lin Mair, ar lin Mair;**
**mewn côr ym Meth'lem Jiwda, ar lin Mair.**

**Diosgodd Crist o'i goron, o'i wirfodd, o'i wirfodd,
er mwyn coroni Seion, o'i wirfodd;
i blygu'i ben dihalog
o dan y goron ddreiniog
i ddioddef dirmyg llidiog, o'i wirfodd, o'i wirfodd,
er codi pen yr euog, o'i wirfodd.**

**Am hyn, bechadur, brysia, fel yr wyt, fel yr wyt,
i 'mofyn am dy Noddfa, fel yr wyt
i ti'r agorwyd ffynnon
a ylch dy glwyfau duon
fel eira gwyn yn Salmon, fel yr wyt, fel yr wyt,
gan hynny, tyrd yn brydlon, fel yr wyt.**

**Geiriau**
Eos Iâl (David Hughes, c.1794-1862)
**Cerddoriaeth | "Ar Gyfer Heddiw'r Bore"**
Alaw werin Gymreig

Parhawn ar ein traed tan ddechreuad y Gloria in Excelsis Deo

## Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.
**Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

"Y mae anrhydedd a mawredd o'th flaen, nerth a gogoniant yn dy gysegr."

## Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw,
ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

ni sydd yn dy goflaid, O Dduw gyda ni,
ond sy'n methu cyd-fyw â'n gilydd;
ni sy'n moli dy gariad diderfyn, O Dduw gyda ni,
ond sy'n syllu'n ddidrugaredd ar friw ac anghyfiawnder;
ni sy'n hiraethu am dy fy ddyfod i'n calonnau, O Dduw gyda ni,
ond yn amddifadu'n dyheu, ddaw'n llugoer at y rhodd.

Cyd-weddïwn.

**Dad nefol,**
**yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,**
**a heb wneud yr hyn a ddylem.**
**Mae'n wir ddrwg gennym,**
**ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.**
**Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,**
**maddeua inni'r cwbl a aeth heibio**
**ac arwain ni yn ei ffordd ef**
**i gerdded fel plant y goleuni.**
**Amen.**

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthych,
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.
**Amen.**

Parhawn ar ein traed

## Gloria in Excelsis Deo

Gogoniant yn y goruchaf i Dduw.

Eisteddwn

Ac ar y ddaear tangnefedd i'r rhai sydd wrth ei fodd. Moliannwn di, bendithiwn di, addolwn di, gogoneddwn di, diolchwn i ti am dy fawr ogoniant. Arglwydd Dduw, Frenin nefol, Dduw Dad Hollalluog. O Arglwydd, yr Unig Fab, Iesu Grist; O Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad, sy'n dwyn ymaith bechod y byd, trugarha wrthym; tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dad, derbyn ein gweddi. Oherwydd ti yn unig sy'n Sanctaidd; ti yn unig yw'r Arglwydd; ti yn unig, O Grist, gyda'r Ysbryd Glân, sydd Oruchaf yng ngogoniant Duw Dad. Amen.

**Cerddoriaeth**
**Offeren Deiniol**, Alan Rees (1941-2005)

Codwn ar ein traed

## Gweddi Gasgl

Gweddïwn.

Hollalluog Dduw, a greaist ni yn rhyfeddol ar dy ddelw dy hun, a'n hadfer yn fwy rhyfeddol byth: caniatâ, megis y gwnaed dy Fab Iesu Grist yn gyfrannog o'n natur ddynol ni, a'i wneud yn ddyn, i ninnau fod yn gyfrannog o'i natur ddwyfol ef; trwy'r un Iesu Grist ein Gwaredwr.
**Amen.**

Eisteddwn

# *Gair*

## Salmyddiaeth



℣ Cenwch yn llafar, yr holl fyd, cenwch yn llafar i Dduw nef.

℟ **Cenwch yn llafar, yr holl fyd,
cenwch yn llafar i Dduw nef.**

Canwch i Dduw gân newydd, oherwydd gwnaeth ryfeddodau.

Cefaist fuddugoliaeth â'th ddeheulaw ac â'th fraich sanctaidd.

℟ **Cenwch yn llafar, yr holl fyd,
cenwch yn llafar i Dduw nef.**

Gwnaethost dy fuddugoliaeth yn hysbys, O Dduw, datguddiaist dy gyfiawnder o flaen y cenhedloedd.

Cofiaist dy gariad a'i ffyddlondeb tuag at dŷ Israel; gwelodd holl gyrrau'r ddaear fuddugoliaeth ein Duw.

℟ **Cenwch yn llafar, yr holl fyd,
cenwch yn llafar i Dduw nef.**

Bloeddiwch mewn gorfoledd i Dduw, yr holl ddaear, canwch mewn llawenydd a rhowch fawl.

℟ **Cenwch yn llafar, yr holl fyd,**
**cenwch yn llafar i Dduw nef.**

**Salm 98:1-5**
**Cerddoriaeth**
Simon Ogdon

## Darlleniad

Darlleniad o'r Lythyr yr Apostol Paul at y Colosiaid.

Garedigion: Yr ydym yn deisyf ar ichwi gael eich grymuso â phob grymuster, yn ôl nerth ogoniant Duw, i ddyfalbarhau a hirymaros yn llawen ym mhob dim, gan ddiolch i'r Tad, yr hwn a'ch gwnaeth yn gymwys i gael cyfran o etifeddiaeth y saint yn y goleuni. Gwaredodd ni o afael y tywyllwch, a'n trosglwyddo i deyrnas ei annwyl Fab, yn yr hwn y mae inni brynedigaeth, sef maddeuant ein pechodau. Hwn yw delw'r Duw anweledig, cyntafanedig yr holl greadigaeth; oherwydd ynddo ef y crewyd pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear, pethau gweledig a phethau anweledig, gorseddau, arglwyddiaethau, tywysogaethau ac awdurdodau. Trwyddo ef ac er ei fwyn ef y mae pob peth wedi ei greu. Y mae ef yn bod cyn pob peth, ac ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll. Ef hefyd yw pen y corff, sef yr eglwys. Ef yw'r dechrau, y cyntafanedig o blith y meirw, i fod ei hun yn gyntaf ym mhob peth. Oherwydd gwelodd Duw yn dda i'w holl gyflawnder breswylio ynddo ef.

Clywch air bywyd i'n byd.
**Diolch a fo i Dduw.**

**Colosiaid 1:11-19**

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys

## Efengyl



℣ Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. ℟ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.** ℣ Gadewch inni fynd i Fethlehem a gweld yr hyn sydd wedi digwydd, y peth yr hysbysodd y Sanctaidd Un ni amdano. ℟ **Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia. Haleliwia.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Luc.
**Gogoniant i ti, O Grist.**

Bryd hynny: Wedi i'r angylion fynd ymaith oddi wrthynt i'r nef, dechreuodd y bugeiliaid ddweud wrth ei gilydd, "Gadewch inni fynd i Fethlehem a gweld yr hyn sydd wedi digwydd, y peth yr hysbysodd y Sanctaidd Un ni amdano." Aethant ar frys, a chawsant hyd i Fair a Joseff, a'r baban yn gorwedd yn y preseb; ac wedi ei weld mynegasant yr hyn oedd wedi ei lefaru wrthynt am y plentyn hwn. Rhyfeddodd pawb a'u clywodd at y pethau a ddywedodd y bugeiliaid wrthynt; ond yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt. Dychwelodd y bugeiliaid gan ogoneddu a moli Duw am yr holl bethau a glywsant ac a welsant, yn union fel y llefarwyd wrthynt.

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.
**Moliant i ti, O Grist.**

**Luc 2:15-20**

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

## Pregeth yn y gyfres
## "A daeth y Gair yn gnawd a phreswylio yn ein plith"
"Mewn ardderchogrwydd purdeb gwiw" | Yr Efengylau

Yn ystod yr Adfent rydym yn paratoi'r ffordd ar gyfer y Gair. Dros y Dolih, dathlwn y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, yn preswylio gyda ni. Nid yw'r paratoad a'r dathlu hwn ar gyfer rhyw ddigwyddiad hanesyddol, oherwydd mae Crist, y Gair, wedi'i eni ynom ni heddiw a phob dydd. Ein tasg feunyddiol yw paratoi a dathlu – gwir "adnabod" Duw yn ein plith. Mae gair Duw yn y Beibl, i ni, yn ffordd hollbwysig o adnabod gwir Air Duw yn ein plith. Mae ein hastudiaeth o'r Beibl yn baratoad ar gyfer adnabod Duw; ein myfyrdod llawen ar eiriau'r Beibl yn ddathliad o Dduw yn preswylio yn ein meddyliau a'n calonnau. Mae'r Beibl yn gasgliad cyfoethog o ysgrifau, a bydd ein pregethau yn y gyfres hon yn archwilio'r ystod o weithiau ac ymadroddion a ganfyddwn wrth ddarllen a chlywed ac adnabod gair Duw yn y Beibl.

**Yr Is-Ddeon**

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

## Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,**
**a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,**
**a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,**
**sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,**
**✠ Dad, Mab ac Ysbryd Glân.**
**Amen.**

### Ymbiliau

Gyda'n holl galon a'n holl feddwl gweddïwn ar Dduw.

Eisteddwn neu benliniwn

Defnyddiwn yr ymatebion

℣ O Dduw, yn dy drugaredd,
℟ **Gwrando ein gweddi.**

℣ Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Dduw.
℟ **A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.**
℣ ✠ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.
℟ **A chyfodi mewn gogoniant.**

℣ Dad trugarog,
℟ **Derbyn y gweddïau hyn**
**er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.**
**Amen.**

Codwn ar ein traed, a gwneir Casgliad yn ystod yr emyn

# Cymun

### Emyn



**Yn y beudy ganwyd Iesu**
**heb un gwely ond y gwair;**
**Duw'r digonedd yn ddi-annedd,**
**gwisgo'n gwaeledd wnaeth y Gair:**
**heddiw erfyn in ei ddilyn**
**lle bo'n wrthun dlodi byd;**
**gyfoethogion, awn yn dlodion,**
**dyna'r goron orau i gyd.**

**Gwŷs angylion ddaeth â'r tlodion
heb ddim rhoddion ond mawrhad;
doethion hefyd ddaeth yn unfryd
gyda golud pell eu gwlad:
heddiw ninnau, rhown ein doniau
fel bo'n dyddiau'n aberth byw;
wrth dywalltiad gwaed ei gariad
ond dechreuad diolch yw.**

**Iesu'n alltud fu'n ei febyd
er uwch bywyd oll yn ben;
dug ei ysgwydd groes gwaradwydd
er yn Arglwydd uwch y nen:
heddiw eto daw i'n herio
i gyd-wisgo agwedd gwas;
gwagio'n balchder, brwydro'n dyner,
dyna gryfder eithaf gras.**

**Geiriau**
Siôn Aled
**Cerddoriaeth | "Wele'n Gwawrio"**
Alaw Llechid (Henry Williams, c.1831-1910)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

## Offrwm

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.
**Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.**

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.
**Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.**

## Gweddi Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Dyrchefwch eich calonnau.
**Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.**

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.
**Iawn yw rhoi ein diolch a'n clod.**

Iawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Ef yw'r Gair a wnaed yn gnawd. Trwyddo ef yr wyt yn rhoi i lygad ffydd weledigaeth newydd o'th ogoniant; yr wyt yn datgelu dy gariad perffaith ac yn ein gwahodd i'th garu a'th addoli di, y Duw anweledig.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf.

✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.

**Cerddoriaeth**
**Offeren Deiniol**, Alan Rees (1941-2005)

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwytewch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

**Henffych, ein Ceidwad,**
**henffych well it heddiw;**
**gogoniant i'th enw**
**trwy'r ddaear a'r nef:**
**Gair y Tragwyddol**
**yma'n ddyn ymddengys.**
**O deuwch ac addolwn,**
**O deuwch ac addolwn,**
**O deuwch ac addolwn**
**Grist o'r nef.**

**Geiriau**
John Francis Wade (c.1711-1786)
**Cyfieithiad**
Anhysbys
**Cerddoriaeth | "Adeste Fideles"**
John Francis Wade (c.1711-1786)

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deuwn â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewydda ni a phawb y gweddïwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.
✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

## Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddïwn yn hyderus:

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneler dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.**

## Tangnefedd

Yn dy eni di, O Dduw, aileniir y byd; dy gorff toredig yn gyflawn yn adnewyddiad dy greadigaeth.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

## Torri

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.

**Cerddoriaeth**
**Offeren Deiniol**, Alan Rees (1941-2005)

## Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.
**Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,**
**ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Deuwn i Gymuno, gan ddilyn cyfarwyddyd y Stiwardiaid, o'r Afrlladen Sagrafennol ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn



Draw yn ninas Dafydd Frenin,
yn y beudy isel, gwael,
dodai mam un bach mewn preseb,
nid oedd llety gwell i'w gael;
Mair fendigaid oedd y fam,
Iesu'r plentyn bach di-nam.

Rhodio daear lawr a fynnai,
yntau'n Dduw ac Arglwydd nef;
dim ond llety'r ych yn gysgod,
gwely gwair a gafodd ef;
daeth i lawr o fynwes Duw
heddiw'n Frawd i ddynol-ryw.

Nid ym mhreseb yr anifail
y ceir eto'i weled ef,
ond yn eistedd mewn awdurdod
ar ei orsedd yn y nef;
cyd-ddyrchafwn ninnau gân
o fawr glod i'w enw glân.

**Geiriau**
Cecil Frances Alexander (1818-1895)
**Efelychiad**
H. W. Jones (1894-1959)
**Cerddoriaeth | "Irby"**
Henry John Gauntlett (1805-1876)

Parhawn ar ein traed

# *Ymadael*

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Bydded i Grist, a gasglodd yn un bopeth daearol a nefol, trwy gymryd ein cnawd ni, eich llenwi â'i lawenydd a'i dangnefedd; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.
**Amen.**

Awn ymaith mewn tangnefedd.
**Yn Enw Crist. Amen.**

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael

**Offrymddarn ar yr organ**
**Miniwét Trwmped**, Alfred Hollins (1865-1942)

# Hysbys

## Defodau'r Adfent a'r Nadolig

I'r Eglwys, megis dechrau y mae'n dathlu o'r Dolig – ein llawenydd ar ganfod goleuni Crist yn llewyrchu yn ein plith. Mae tymor y Nadolig, yn wir, yn hwy na phedair wythnos yr Adfent, a byddwn yn gwisgo gwyn ac yn canu *"Gloria in Excelsis Deo"* tan Ddygwyl Fair y Canhwyllau ar Sul olaf Ionawr, pan fyddwn yn dathlu cyflwyniad Crist gan ei rieni yn y Deml. Mae'n ddisgyblaeth dda i ni gynnal y dathliad ysbrydol hwnnw yn ein bywydau a'n haddoliad – gan anrhydedd goleuni Crist ym mysg y tywyllwch sy'n dal i wasgu o'n cwmpas. Bydd ein perfformiad defosiynol o'r *Ceremony of Carols* o waith Benjamin Britten a Naw Llith a Charol y Canhwyllau yn ein helpu i barhau i ddathlu yn ystod y mis sydd i ddod.

Fodd bynnag, mae ein gwasanaeth i'n cymuned yn golygu bod ein dathliad o'r Nadolig yn eithaf aeddfed bellach, ac roedd wythnosau olaf yr Adfent a phenwythnos Dydd Nadolig yn gyfnod o weithgarwch llawen yn y Gadeirlan ac Eglwys y Groes. O'n Carolau ar Wib a'r Meseia, trwy ein Naw Llith, ac hyd at Wasanaeth y Preseb a'n Cymun Noswyl Nadolig a Dydd Nadolig, croesawyd dros 1,200 o bobl i'r Gadeirlan ac Eglwys y Groes – llawer ohonynt yn croesi'r trothwy ar gyfer y tro cyntaf, neu am y tro cyntaf ers cryn dipyn. Galwyd am waith caled ar draws teulu'r Gadeirlan a Bro Deiniol i'n galluogi i gynnig ein holl ddefodau'n groesawgar ac i safon mor uchel. Mae fy niolch i bawb am eu hymroddiad a'u gofal, ac mae gen i obeithion mawr am bopeth a ddaw dros y flwyddyn i ddod.

Nadolig llawen parhaus i chi, felly – a fy nymuniadau gorau ar gyfer Blwyddyn Newydd fendithiol.

## Datganiadau Paned

Pob dydd Iau
11.15am am 45 munud
Paned a chacen o 10.45am

### 19 Ionawr | Joe Cooper & Simon Ogdon | Piano

Mae Joe Cooper a Simon Ogdon yn dychwelyd i agor tymor Datganiadau Paned 2023 gyda deuawdau piano gan y cyfansoddwyr Rhamantaidd Ffrengig.

### 26 Ionawr | Ensemble Jazz Prifysgol Bangor

Yn cynnwys myfyrwyr yr ail a'r drydedd flwyddyn yn bennaf, daeth y grŵp at ei gilydd fel rhan o Fodiwlau Perfformio Prifysgol Bangor i alluogi myfyrwyr i gael profiad o berfformio gyda'i gilydd yn y traddodiad jazz. Edrychwn ymlaen at eu croesawu i'r Gadeirlan

## Britten, A Ceremony of Carols

15 Ionawr am 6pm

Lleisiau uchaf Côr y Gadeirlan mewn perfformiad atmosfferig o osodiad hyfryd Benjamin Britten o garolau a gweithiau eraill.

**Tocynnau** | £5 pris llawn | Plant am ddim

## Naw Llith a Charol y Canhwyllau

29 Ionawr am 6pm

Ar ddiwedd dathliadau'r Nadolig, ymunwch â ni wrth i ni deithio gyda Mair, Joseff a'r plentyn i Gaersalem, ar gyfer defod olaf y tymor, gan ddal

y golau o'n blaenau, a chan weddïo yng ngoleuni'r fflam dros bopeth a fydd.

Mae mynediad yn rhad ac am ddim, ac mae croeso cynnes i baw

# Yr wythnos

## Dydd Llun | Monday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## Dydd Mawrth | Tuesday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Mercher | Wednesday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## Dydd Iau | Thursday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

**2.00pm | Eglwys y Groes** Cymun | Eucharist

**5.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

## Dydd Gwener | Friday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## Dydd Sadwrn | Saturday

**12.30pm** Cymun | Eucharist

## 8 Ionawr | Dygwyl yr Ystwyll | 8 January | The Festival of the Epiphany

**8.15am** Holy Eucharist

**9.15am** Cymun Bendigaid ar Gân

Cymun ar Emyn-Donau Cymreig, Cooper; Rhos Bethlehem, Warlock; Wie schön leuchtet der Morgenstern, Pachelbel

**11.00am** Choral Holy Eucharist

Mass in G, Schubert; There shall a star, Mendelssohn; Prelude on Stuttgart, Peeters

**3.30pm** Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Spicer; Gwasanaeth Hwyrol yn F | Evening Service in F, Dyson; Here is the little door, Howells; Ffantasia ar | Fantasy on "Babylon's Streams", Harris

# Ein gweddi

**Ein cymuned Gwaith** Banc Bwyd y Gadeirlan ac elusennau eraill sy'n gweithio i liniaru tlodi ac angen

**Ein hesgobaeth** Archesgob Cymru

**Yn glâf** Joy Levine, offeiriad; Caitriona Carroll

**A fu farw'n ddiweddar** Bened XVI, esgob; David Beale

**Gŵyl goffa** —

## Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

## Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Ar y clawr ceir rhan o ochr cefn Papyrus 37, llawysgrif Testament Newydd o Efengyl Mathew o'r 3edd/4edd ganrif, o Lyfrgell Ann Arbor ym Mhrifysgol Michigan.

# *Cefnogaeth*

**Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.**

1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganiwch y cod QR isod.

2 Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswllt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio cerdyn neu ffôn.

**Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.**

## Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol Deiniol Sant ym Mangor

## The Cathedral & Metropolitical Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru
**Y Parchedicaf Andrew T. G. John**
Bishop & Archbishop of Wales
**The Most Revd Andrew T. G. John**

Is-Ddeon | Sub-Dean
**Canon Siôn B. E. Rhys Evans**
sionrhysevans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol
Canon for Congregational Life
**Canon Tracy Jones**
tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music
**Joe Cooper**
joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist
**Martin Brown**
martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu | Family Minister
**Naomi Wood**
naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Clerc y Cabidwl | Chapter Clerk
**Robert Jones**
robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos
**Simon Taylor**
simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer
**Kelly Edwards**
kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Litwrgi | Liturgy Administrator
**Sam Jones**
samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Rheolwr Prosiect Cadwraeth a Datblygu
Conservation & Development Project Manager
**Simon Ogdon**
simonogdon@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Secundus
**Canon David Thomas Morris**
davidmorris@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritws | Canon Emeritus
**Canon Angela Williams**

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan
Members of the Cathedral's College of Priests
**Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor- Jones, y Tra Pharchg Athro | the Very Revd Prof. Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter Kaye**

Darllenydd | Reader
**Elma Taylor**

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect
**Simon Malam**

Rhif elusen | Charity number 1158340